O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 3249 (Cy. 324)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012

*Gwnaed* *14 Rhagfyr 2012*

*Yn dod i rym* *21 Rhagfyr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid dileu cyfyngiadau cyflymder ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, mewn mannau lle y cyfyngir ar y gefnffordd ar hyn o bryd gan oleuadau stryd.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 82(2) ac adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (“Deddf 1984”) ac wedi rhoi rhybudd i'r cyhoedd o'u bwriad i wneud hynny, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Rhagfyr 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012.

**Dileu Cyfyngiadau**

2. Cyfarwyddir bod y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd

gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Rhagfyr 2012

***R MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; Diwygiwyd adran 82(2) ac adran 83(1) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 59(3) a 60(2). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

(i) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan y Rhigos i bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Hirwaun.

(ii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 60 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan i bwynt 55 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Croesbychan, sef pellter o 115 o fetrau.

(iii) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 619 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4276, Cyffordd Baverstocks i bwynt 485 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4276, Cyffordd Baverstocks, sef pellter o 1,104 o fetrau.

(iv) y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt 53 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Swansea Road i bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd Lower Vaynor Road, gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Cefncoedycymer.

(v) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd orllewinol â Chylchfan Dowlais Top i bwynt

235 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Dowlais Top.

(vi) y darn hwnnw o'r gefnffordd o'i chyffordd orllewinol â Chylchfan Dowlais ar yr A4060 i bwynt 111 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dowlais ar yr A4060, sef pellter o 76 o fetrau.